**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Medi 30ain 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Elen H Edwards, R Emlyn Williams, Gwydion Jones

Presennol: Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Gwyn Williams, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod yn cynnwys aelod o'r cyhoedd, y cyfieithydd Glyn Jones a Mr Gareth Davies o Clean Earth Energy.

45.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

45.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 29ain Gorffennaf, 2il Medi ac 8fed Medi a PHENDERFYNWYD yn unfrydol bod y cofnodion yn gywir.

45.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
45.3.1 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – derbyniwyd ebost gan Prysor Williams yn nodi iddo gael gwybod yn ddiweddar iawn na fydd y mast ffôn yn cael ei adeiladu wedi'r cwbl er i'r cwmni ddweud yr wythnos cynt byddai popeth yn gyrru ymlaen. Mae'n debyg na fyddai'r mast oedd mewn golwg ar y safle yn addas ar gyfer signal un cwmni ffôn a byddai angen gwneud cais cynllunio arall ac nad oedd digon o amser i wneud hynny. Roedd yn teimlo'n siomedig yn arbennig dros drigolion Gwytherin oedd yn gobeithio am well signal ffôn. Teimlai aelodau'r Cyngor yn siomedig iawn hefyd bod cwmni proffesiynol wedi gwneud hyn ac wedi codi gobeithion pobl. PENDERFYNWYD yn unfrydol i anfon llythyr at gwmni Arqiva i ofyn am eglurhad ar y sefyllfa.
45.3.2 CYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS – roedd y Cadeirydd wedi derbyn y papurau i'r Cyfarfod Blynyddol ac yn awyddus i gael barn y Cyngor Cymuned ar godi tâl aelodaeth Un Llais 3%. Roedd pawb yn cytuno â hyn.
45.3.3 PROSIECT HIRAETHOG – derbyniwyd ebost gan Suryiah Evans, cydlynydd y prosiect yn ymddiheuro nad oedd panel wedi ei osod ym Mhandy Tudur ac y byddai'n gwnued ymholiadau.
45.3.4 CAR YN YR AFON ELWY (44.3.7) – roedd yr Adran Traffig yn awyddus i gael mwy o fanylion ac anfonwyd sylwadau Diane Roberts atynt.
45.3.5 BLODAU I'R BLYCHAU – derbyniwyd ffurflen gais Cronfa Bro Cernyw gan y Clwb Garddio am brynu a phlannu blodau yn y blychau ar ddechrau'r haf. PENDERFYNWYD i roi'r cyfraniad o £215.74 iddynt a diolch iddynt am y gwaith. Cynigiodd Ann Vaughan fynd i brynu bylbiau a blodau i'r blychau ar gyfer y gaeaf. Diolchwyd iddi am hyn.
45.3.6 PEINTIO ARHOSFAN BWS – nid oedd y Clerc wedi clywed dim gan B&Q a gwelwyd byddai rhaid gofyn i'r Aelwyd os gallent wneud cais am grant i brynu paent ac offer pwrpasol.

45.4 MATERION CYNLLUNIO
45.4.1 ADEILAD AMAETHYDDOL – derbyniwyd ateb o'r Adran Cynllunio yn nodi beth oedd y canllawiau ynglyn ag 'Adeilad Amaethyddol'. Cafwyd diffiniad 'amaethyddol' o dan adran 336 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sef bod 'amaethyddol' yn cynnwys garddwriaeth, tyfu

ffrwythau, tyfu hadau, godro, magu a chadw anifeiliaid (yn cynnwys unrhyw greadur a gedwir i gynhyrchu bwyd, gwlân, croen neu ffwr neu ei ddefnyddio i ffermio'r tir), defnyddio tir fel tir pori, dolydd, helyg, gerddi marchnad a meithrinfa, a defnyddio tir ar gyfer coedwig lle mae hynny'n ategol i ffermio'r tir ar gyfer pwrpas arall, a bod 'amaethyddol' yn cael ei ddehongli'n addas. PENDERFYNWYD i anfon copi o'r ateb i'r aelodau ac i gadw copi ar ffeil.

45.4.2 CAIS RHIF 0/41886 Adeiladu un tyrbin gwynt 30.5m i'r both (48.01m i'r llafn) gyda bocs rheoli a'r holl waith cysylltiedig yn Bodrach, Carmel, Llanrwst gan H Owen Co – gwybodaeth ychwanegol ar y cais PENDERFYNWYD i beidio anfon unrhyw sylwadau pellach. Pwysleisiodd Diane Roberts ei bod yn gwrthwynebu'r cais a dywedodd iddi fod mewn cyfarfod cynllunio a gweld bod cofnod bod Cyngor Cymuned Llangernyw yn cefnogi cais yn unfrydol er nad oedd hynny'n wir. PENDERFYNWYD yn unfrydol y dylai'r Clerc nodi wrth anfon sylwadau os yw'r Cyngor yn cefnogi yn unfrydol neu gyda mwyafrif.

45.4.3 CAIS RHIF 0/42046 Tyrbin gwynt sengl o hyd at uchafswm o 77m i'r llafn, ynghyd ag isadeiledd cysylltiedig gan gynnwys trac mynediad a chwt trydanol ar dir Plas Isaf, Tafarn Bara Ceirch, Llangernyw gan Clean Earth Energy. Tynnodd Ann Vaughan ein sylw ei bod yn byw yn y fferm agosaf at Plas Isaf ac nad oedd Plas Isaf ym mhlwyf Llangernyw. Roedd Mr Gareth Davies o'r cwmni Clean Earth Energy wedi gofyn y diwrnod cynt a gai fynychu'r cyfarfod ac wedi ymgynghori â'r Cadeirydd rhoddwyd caniatad iddo fynychu. Esboniodd ychydig am gefndir y cynllun – roedd wedi ei leoli yn bell o adeilad arall, roedd yn fenter masnachol gyda'r cwmni a'r amaethwr yn elwa. Gofynnwyd pam nad oedd yr holl wybodaeth ar y cais ar wefan Cyngor Conwy a chafwyd sylw na ddylai'r Cyngor Cymuned drafod y cais gan nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol bod Gareth Davies o'r cwmni yn dod i siarad yn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ymhlith yr aelodau – nodi y byddai'r tyrbin yn cynhyrchu llawer mwy o drydan nag sydd angen i fferm; doedd ond un llythyr o wrthwynebiad ar y wefan a hwnnw gan y Parc Cenedlaethol; roeddem wedi gwrthwynebu tyrbinau mawr yn lleol yn y gorffennol; bod barcud coch yn hedfan yn yr ardal; buddsoddwr yn elwa fwyaf; bod y tyrbin yn rhy fawr. PENDERFYNWYD yn unfrydol i wrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol: a) byddai'r tyrbin llawer uwch na tyrbinau eraill yn yr ardal b) ddim digon o gyhoeddusrwydd wedi bod gyda'r cyhoedd c) ein bod wedi gwrthwynebu tyrbinau masnachol o'r blaen.

45.5 ANNOG Y TO IAU I FOD YN GYNGHORWYR – gofynnodd Diane Roberts i'r Cynghorydd Dilwyn Roberts a oedd Cyngor Conwy yn ceisio annog pobl ifanc i gymryd diddordeb mewn llywodraeth leol. Atebodd Dilwyn Roberts eu bod yn ceisio mentora aelodau ifanc.

45.6 CRONFA BRO CERNYW – roedd Elen Edwards wedi bwrw golwg dros y ffurflen gais ac wedi ei haddasu ac wedi paratoi ffurflen asesu yn ogystal. Cafwyd golwg ar y ffurflen a phenderfynwyd i ychwanegu 'os yn berthnasol' o dan bwynt 8 a 9 ac i symud Yr Iaith Gymraeg yn ail yn y rhestr ym mhwynt 6. Yna derbyniwyd y ffurflen gais ar ei ffurf newydd. Diolchwyd i Elen Edwards am ei gwaith trylwyr ar y ffurflenni.

45.7 COFRESTRU BUDDIANNAU AELODAU – gwelwyd ein bod yn cofnodi cysylltiad personol aelod ag eitem ar Agenda ac wedi trafodaeth PENDERFYNWYD yn unfrydol i adael pethau fel y maent ond i'r Clerc gysylltu ag Arfon Parry iddo lunio grid i roi'r wybodaeth ar wefan y Cyngor.

45.8 TOILEDAU LLANGERNYW – y Clerc i ofyn i'r Adran Amgylcheddol pwy gafodd y contract o ail-wneud y toiledau a beth yw'r datblygiadau hyd yn hyn.

45.9  ADRODDIAD O GWRS ‘DEALL Y GYFRAITH’ UN LLAIS – mynychodd Ann Vaughan y cwrs ym Mhenmaenmawr a chafwyd adroddiad ganddi.  Cyfeiriwyd at y ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac y dylid cael gwared o unrhyw nodiadau ar ôl gwneud y cofnodion; dylid cael gwared o hen geisiadau cynllunio; dylid cael copi o Asesiad Risg y canolfannau lle cynhelir cyfarfodydd y Cyngor.  PENDERFYNWYD i roi yr eitem Asesiad Risg ar Agenda cyfarfod o’r Cyngor ac i edrych ar yr hysbysfyrddau a’r arhosfan bws. Hefyd i’r Clerc sganio papurau’r cwrs a’u hanfon i’r aelodau.  Diolchwyd i Ann Vaughan am fynychu’r cwrs ac am ei hadroddiad.

45.10  YMGYNGHORIAD ADRAN MERCHED A MAMOLAETH Y GOGLEDD – PENDERFYNWYD i aelodau unigol anfon sylwadau os yn dymuno.

45.11 GWOBR CYMUNEDOL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD – mynegwyd y dylid rhoi gwybodaeth am bethau o’r fath yn y Cylchlythyr.

45.12  GOHEBIAETH – y Clerc i’w hanfon i’r aelodau ar ebost.

45.13  CYFARFOD FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – roedd y cyfarfod nesaf ar nos Iau Hydref 22ain am 6.30yh ym Modlondeb.

45.14  CWRS CYLLID LLYWODRAETH LEOL 13 HYDREF – roedd y Clerc yn dymuno mynychu’r cwrs ym Mhenmaenmawr.

45.15  MATERION LLEOL
45.15.1  Gwrych stad Hafodunos ger Rhwng y ddwy ffordd gwir angen ei dorri.
45.15.2  Arwyddion wedi colli eu lliw- ddim mor goch ag y dylent fod.
45.15.3  Derbyniwyd gwerthfawrogiad bod y Cyngor wedi cyfrannu at weithgareddau  plant Bwrlwm Bro yn ystod yr haf.
45.15.4  Mynegwyd siom bod diffyg Cymraeg mewn cwmniau megis ‘Surf Snowdonia’ ac angen ysgrifennu i gwyno.
45.15.5  Angen ysgrifennu at fanc HSBC Bae Colwyn i gwyno nad oedd aelod o staff yn medru trafod materion yn y Gymraeg yn ddiweddar.
45.15.6  Angen cael golwg ar y mynwentydd – ddim yn siwr os oedd un toriad ar ôl.
45.15.7  Tyllau yn y ffordd ger Bryn Hyfryd, Pandy Tudur.
45.15.8  Cyfarfod nesaf – 4ydd Tachwedd neu 21ain Hydref (os oedd cais cynllunio)
45.15.9  Rhoddwyd hysbys i weithgarwch yn Amgueddfa’r Cwm ar noson Calan Gaeaf.

45.16  BILIAU

| | |
|---|---|
| Cyfieithu Cymunedol (Dau gyfarfod) | £128.14 |
| Dŵr Cymru (Tap Mynwent Llangernyw) | £35.11 |

Daeth y cyfarfod i ben am 10.05 yh

*Cymeradwywyd y Cofnodion …D Gwynfor Davies………  Dyddiad…4/11/15…………………..*

Community Council Meeting was held on Wednesday, September 30th 2015 at 7.30 pm at Gwytherin Community Centre

Apologies: Elen H. Edwards, R Emlyn Williams, Gwydion Jones

Present: Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Ian W Griffith, Gwyn Williams, Cllr Dilwyn O Roberts and Clerk.
The Chair welcomed everyone to the meeting including a member of the public, the translator Glyn Jones and Mr Gareth Davies of Clean Earth Energy.

45.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

45.2 MINUTES - looked at minutes 29 July, 2nd September and 8 September and RESOLVED unanimously that the records were accurate.

45.3 ISSUES ARISING
45.3.1 MAST AT PEN Y FRON, GWYTHERIN - email received from Prysor Williams stating that he heard recently that the phone mast will not be built after all although the company said the previous week that everything would be going ahead. It is likely that the mast in mind at the site was not suitable for one telephone company and another planning application would be needed and there was not enough time to do this. He felt disappointed especially for residents of Gwytherin who were hoping for a better telephone signal. Council members felt very disappointed also that a professional company has done this and raised people's hopes. RESOLVED unanimously to send a letter to the company Arqiva to clarify the situation.
45.3.2 ANNUAL MEETING ONE VOICE WALES - the Chair had received the papers to the Annual Meeting and asked for the views of the Community Council on raising membership of One Voice by 3%. Everyone agreed with this.
45.3.3 PROJECT HIRAETHOG - email received from Suryiah Evans, coordinator of the project apologizing that the panel at Pandy Tudur was not in place and would make inquiries.
45.3.4 CAR IN THE RIVER ELWY (44.3.7) - the Traffic Department is keen to get more details and Diane Roberts's comments were sent to them.
45.3.5 FLOWERS FOR THE BOXES – Cronfa Bro Cernyw application form received from the Gardening Club re buying and planting flowers in the boxes at the beginning of summer. RESOLVED to give a contribution of £ 215.74 to them and thank them for the work. Ann Vaughan offered to go buy the bulbs and winter flowers for the boxes. She was thanked for doing this.
45.3.6 PAINTING BUS STOP - The Clerk had not heard anything from B&Q and it was felt that we should ask Aelwyd Bro Cernyw to apply for a grant to purchase paint and equipment.

45.4 PLANNING MATTERS
45.4.1 AGRICULTURAL BUILDING - answer was received from the Planning Department stating the guidelines regarding 'Agricultural Building'. The definition of 'agricultural' under section 336 of the Town and Country Planning Act 1990, is *"agriculture" includes horticulture, fruit growing, seed growing, dairy farming, the breeding and keeping of livestock (including any creature kept for the production of food, wool, skins or fur, or for the purpose of its use in the farming of land), the use of land as grazing land,*

*meadow land, osier land, market gardens and nursery grounds, and the use of land for woodlands where that use is ancillary to the farming of land for other agricultural purposes, and "agricultural" shall be construed accordingly;"* RESOLVED to send a copy of the reply to the members and to keep a copy on file.

45.4.2 APPLICATION NUMBER 0/41886 Construction of a wind turbine hub to 30.5m (48.01m to the blade) with a control box and all associated works at Bodrach, Carmel, Llanrwst by H. Owen Co. - additional information on the application RESOLVED not to send any further comments. Diane Roberts stressed that she opposed the application and said she was in a planning meeting recently and saw a record that Llangernyw CC supported an application unanimously although this was not true. It was unanimously RESOLVED that the Clerk to note when sending comments to the Planning Authority if support is unanimous or by a majority.

45.4.3 APPLICATION NUMBER 0/42046 Single wind turbine up to a maximum of 77m to the blade, together with associated infrastructure including access track and electrical huts at Plas Isaf, Tafarn Bara Ceirch, Llangernyw by Clean Earth Energy. Ann Vaughan drew our attention that she lived in the farm closest to Plas Isaf and the land was not in the parish Llangernyw. Mr Gareth Davies of the company Clean Earth Energy had requested the previous day to attend the meeting and after consultation with the Chairman was given permission to attend. He explained a little about the background of the scheme - it was located far from another building, it was a commercial venture with the company and the farmer benefiting. Mr Davies was asked why was all the information on the application not on Conwy Council website. It was expressed that the Community Council should not discuss the application in the meeting because the public were not aware that Gareth Davies, Clean Earth Energy was speaking at the meeting. There was discussion among the members - noting that the turbine would produce much more electricity than needed for the farm; there was only one letter of objection on the website from the National Park; we have opposed large turbines locally in the past; the red kite flies in the area; the investor would benefit most; that the turbine is too big. RESOLVED unanimously to oppose the application for the following reasons: a) that the turbine is much higher than other turbines in the area b) not enough publicity has been with the public c) we have opposed commercial turbines previously.

45.5 ENCOURAGE YOUNG PEOPLE TO BE COUNCILLORS - Diane Roberts asked Cllr Dilwyn Roberts if Conwy Council was trying to encourage young people to take an interest in local government. Dilwyn Roberts replied that they seek to mentor younger members.

45.6 BRO CERNYW FUND - Elen Edwards had looked through the application form and had adapted it and prepared an assessment form as well. Members looked at the form and it was decided to add 'if appropriate' under point 8 and 9 and to move Welsh language to second place in the list in point 6. Then the application form was accepted in its new form. Elen Edwards was thanked for her thorough work on the forms.

45.7 REGISTRATION OF INTERESTS OF MEMBERS – it was noted that we record personal interests of members with an item on the Agenda at present and after discussion it was unanimously RESOLVED to leave things as they are but the Clerk

to contact Arfon Parry drawing up a grid to put the information on the Council's website.

45.8 LLANGERNYW TOILETS - the Clerk to ask the Department of Environment who was awarded the contract to renovate the toilets and what was the progress so far.
45.9 REPORT ON 'UNDERSTANDING THE LAW' COURSE ONE VOICE WALES - Ann Vaughan attended the course at Penmaenmawr and gave a report. They referred to the Freedom of Information Act and stating that any notes should be destroyed after the minutes were approved; old planning applications should be disregarded; the community council should have a copy of the Risk Assessment of different venues where Council meetings are held. RESOLVED to place Risk Assessment on Council meeting agenda and to look at the noticeboards and bus stop. The Clerk also to scan the course papers and send them to the members. Ann Vaughan was thanked for attending the course and for her report.

45.10 WOMEN AND MATERNITY DEPARTMENT CONSULTATION - RESOLVED individual members to send comments if desired.

45.11 POLICE AND CRIME COMMISSIONER COMMUNITY AWARDS - should give information about such things in the Newsletter.

45.12 CORRESPONDENCE - the Clerk to send to members by email.

45.13 MEETING OF COMMUNITY AND TOWN COUNCILS FORUM CONWY - the next meeting on Thursday 22nd October at 6.30pm at Bodlondeb.

45.14 LOCAL GOVERNMENT FINANCE COURSE 13 OCTOBER - the Clerk would like to attend a course at Penmaenmawr.

45.15 LOCAL ISSUES
45.15.1 Hafodunos estate hedge near Rhwng y ddwyffordd needs cutting – obstructing view.
45.15.2 Road signs have lost their colour- not as red as they should be.
45.15.3 Received appreciation from public that the community council has contributed to children's activities Bwrlwm Bro in the village this summer.
45.15.4 Expressed disappointment of the lack of Welsh in companies such as 'Surf Snowdonia' and need to write to complain.
45.15.5 Need to write to HSBC Colwyn Bay to complain that staff members could not discuss matters in Welsh recently.
45.15.6 Need to check the cemeteries - not sure if there was one cut left to do.
45.15.7 Potholes near Bryn Hyfryd, Pandy Tudur.
45.15.8 Next meeting - 4 November or 21 October (if planning application needs to be discussed)
45.15.9 Activity at Cwm Museum on Halloween was advertised.
45.16 BILLS
Community Translation (Two meetings) £ 128.14
Welsh Water (Tap Cemetery Llangernyw) £ 35.11
The meeting came to a close at 10:05 pm
Approved the Minutes ... D Gwynfor Davies ......... Date ... 4/11/15 .................. ..